

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom
ar nos Iau 11 Mehefin, 2020 am 19.00**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd David K Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Myfanwy Jones.

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2020.

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystro'r llwybr cyhoeddus. Cyngor Gwynedd i gwblhau ychwaneg o ymchwiliadau pan fu'r tywydd yn addas. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Llifogydd Tan Lôn – angen trefnu cyfarfod ar y safle gyda Stad Penrhyn, swyddogion Cyngor Gwynedd a cynrychiolwyr y Cyngor Cymuned.

Wal Maes y Groes – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Lôn Goed – cylfat diffygiol yn gwaelod y ffordd. Dŵr yn casglu ar y lôn pan mae wedi bod yn bwrw. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Rali 7fed Rhagfyr – y Cyngor yn anhapus iawn gyda'r ymateb. Angen gwneud yn siŵr na fydd hyn yn digwydd eto.

Wern Bach – twll yn y ffordd. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi am ddiweddariad.

Clwb Rygbi Bangor – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffig ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc i lythyru Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Grŵp Apêl Alaw	£100.00
J Johnson – torri gwair Ebrill	£120.00
Hosbis Dewi Sant	£100.00
J Johnson – torri gwair Mai	£60.00
Swyddfa Archwilio Cymru	£295.35
BHIB-yswiriant	£529.73

6. Cyfrifon 2019-20

Cyflwynwyd y cyfrifon oedd wedi cael eu harchwilio a'i cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid. Penderfynwyd derbyn y cyfrifon.

7. Archwiliad Mewnol Cyfrifon 2019-20

Yr Archwiliad Mewnol wedi ei gwblhau yn drylwyr gan Gyngor Gwynedd. Trafodwyd yr adroddiad a dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd. Yn dilyn barn yr Archwilydd, mae'r Cyngor yn ymrwmo i roi sylw i'r risgiau a chymryd camau priodol i'w lliniaru.

8. Ffurflen Flynyddol 2019-20

Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Cadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

9. Cae chwarae Tal y Bont

Dim byd pellach wedi digwydd gyda datblygu'r safle oherwydd Covid19. Y Clerc i holi am brisiau ar gyfer torri gwair y cae pêl-droed.

10. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – e-bost gan Partneriaeth Ogwen i hysbysebu'r Crowdfunder ar gyfer y Gronfa Gymunedol. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn cyfrannu £100.

Cyflwynwyd – e-bost gan Siop Ogwen. Y Swyddog Datblygu yn awyddus i glywed gan wahanol bobl yn y gymuned am eu profiadau yn ystod y pandemig. Yr aelodau i gysylltu os oes diddordeb.

Cyflwynwyd – e-bost gan Siop Ogwen ynglŷn a murlun sydd i'w greu ar Stryd Fawr Bethesda, yn gofyn am syniadau ar gyfer ei gynnwys. Angen anfon unrhyw syniadau at y Swyddog Datblygu.

Cyflwynwyd – e-bost gan Tarian Cymru – cais am rodd tuag at prynu offer amddiffyn i weithwyr iechyd yng Nghymru. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn cyfrannu £100.

Cyflwynwyd – e-bost gan Tŷ Gobaith. Cais am rodd. Penderfynwyd bydd y Cyngor yn cyfrannu £100.

Cyflwynwyd – gohebiaeth rhwng y Cynghorydd Dafydd Meurig a Chyngor Gwynedd ynglŷn a trafferthion loriau yn Tan y Lon. Nodwyd yr ohebiaeth.

11. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen – cafwyd diweddariad sydyn ar beth oedd wedi bod yn digwydd yn Partneriaeth Ogwen yn ystod y cyfnod clo. Adroddiad ysgrifenedig i ddilyn.

12. Penderfyniadau Cynllunio:

C19/1021/16/LL

Hartwell, 1 Bythynnod, Tal y Bont, Bangor

Disodli tô gwastad gyda crib ynghyd ac estyniad i greu porth

Penderfyniad: Caniatawyd, gydag amodau.

C20/0154/21/CC

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

Penderfyniad: Ar y gweill.

C19/0950/21/LL

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

Penderfyniad: Ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

C20/0332/21/DT

Bryn Derwas, Tal y Bont, Bangor

Estyniad ar y llawr cyntaf ynghyd a chodi modurdy dwbl

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad, yr estyniad yn y cefn a ddim i'w weld o'r ffordd.

13. Materion Brys

Allt Caellwngrydd at y giât mynydd – fan yn parcio o flaen y giât i'r mynydd, ac felly porwyr methu cael mynediad. Y Clerc i gysylltu gyda'r Heddlu.

Y Mynydd– bydd gwell syniad o unrhyw or-bori yn cael ei fonitro yn ystod yr hel mis nesaf.

Cynnal Cyfarfod Blynyddol - i'w drafod eto mis nesaf

Llwybrau cyhoeddus – llawer o ddryswch yn enwedig ar ddechrau'r cyfnod clo ar ba lwybrau oedd y rhai cyhoeddus o gwmpas Fferm Tan y Garth. Y Cyng. Margaret Fernley am anfon labeli 'saeth' at y Cyng. Jên Morris. Y Clerc i drïo cysylltu gyda'r Adran Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd.

Cae chwarae – Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am ganllawiau a rheolau ar gyfer y cae chwarae pan bydd yn gallu ail-agor.